

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Whitehouse Dental Clinic, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 13 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	10
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	22
4.	Y camau nesaf .....	27
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	28
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	29
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Whitehouse Dental Clinic, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 13 Tachwedd 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 52 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom fod y staff yn ymfalchïo yn ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt ac roeddent am wneud y profiad o fynychu'r practis yn un dymunol. Gwelsom fod y practis yn darparu gofal cynhwysfawr sy'n gweithredu er lles gorau'r cleifion.

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i gynnig triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod gyda slotiau brys wedi'u trefnu ar gyfer y deintyddion yn y bore a'r prynhawn. Dywedodd y cleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth drwy'r practis, gan gynnwys datganiad o ddiben cyfredol. Fodd bynnag, roedd rhai pethau wedi'u hepgor o'r daflen wybodaeth i gleifion, sef gwybodaeth yn ymwneud ag ymdrin â chwynion a cheisio adborth y cleifion.

Gwelsom fod ramp wedi'i osod yn y cefn i roi mynediad i gadeiriau olwyn ond nid ystyriwyd bod y toiledau i gleifion yn hygyrch oherwydd un stepen, anawsterau manwro, diffyg canllawiau a chymhorthion galw mewn argyfwng.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarw'r daflen i gleifion i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau
- Rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith i gleifion a threfnu gwasanaeth cyfieithu priodol.
- Ystyried sut y gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill sy'n ystyried anghenion cleifion ag anawsterau darllen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymerwyd camau gweithredu cadarnhaol o ganlyniad i COVID-19 i newid y seddau i gleifion er mwyn galluogi proses atal a rheoli heintiau gwell
- Roedd trefnu slotiau amser yn amserlenni'r deintyddion yn rhoi mynediad hawdd i gleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt.
- Roedd ramp wedi'i osod yn y cefn i roi mynediad i gadeiriau olwyn.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da gydag ystafelloedd triniaeth mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Roedd yr ardaloedd i gleifion wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda. Fodd bynnag, roedd angen sylw ar yr ardaloedd i staff er mwyn datrys risgiau posibl o ran atal a rheoli heintiau.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i ymdrin â'r gwastraff a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y practis, a threfniadau addas mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH).

Gwelsom system addas ar gyfer rheoli meddyginiaethau a chyfarpar brys ac roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion ac roedd arweinydd diogelu penodedig ar gael. Roedd y practis wedi cael gafael ar ap Diogelu Cymru Gyfan er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arweiniad diweddaraf.

Roedd y cofnodion deintyddol yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, gyda rhai mân feysydd i'w gwella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cynnal Profion o Offer Cludadwy fel y nodwyd yn yr asesiad risg tân
- Dylai ymarferion tân sy'n cael eu cynnal gael eu cofnodi yn y cofnodlyfr diogelwch tân
- Dylid cynnal archwiliad clinigol o belydrau-X
- Mwy o gysondeb wrth gofnodi manylion yng nghofnodion gofal deintyddol y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ardal newid ddynodedig i'r staff gyda loceri i storio eiddo personol
- Polisi atal a rheoli heintiau cyfredol gydag arweinydd rheoli heintiau wedi'i benodi ac amserlenni glanhau wedi'u lleoli drwy'r practis
- Cynhaliwyd asesiad risg tân yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae contract cynnal a chadw cyfarpar diffodd tân ar waith a chynhelir archwiliadau wythnosol

- Opsiynau trin da gydag ymchwiliadau trwyadl a thrafodaethau gyda chleifion.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn weladwy, a gwelsom linellau adrodd clir ar gyfer y staff a phractis a oedd yn cael ei redeg yn dda. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rolau ac roedd tystiolaeth o arfarniadau rheolaidd.

Gwelsom bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl ddogfennaeth y mae'n rhaid iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff a gyflogir yn y practis. Fodd bynnag, ni welsom fod unrhyw broses sefydlu ffurfiol ar waith.

Gwelsom fod trefniadau amrywiol ar waith i geisio adborth gan gleifion, a ddadansoddwyd i nodi meysydd i'w gwella.

Gwelsom fod gweithdrefnau cwyno cyfredol ar waith ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG gyda manylion ac amserlenni'r rheolwr cwynion. Fodd bynnag, nid oedd manylion i gyfeirio cleifion at wasanaethau eirioli.

Gwelsom fod y polisi Dyletswydd Gonestrwydd yn gryno a bod angen ei ddatblygu i sicrhau ei fod yn rhoi digon o arweiniad a'i fod yn nodi cyfrifoldebau'r staff. Gwelsom fod gan y staff ddealltwriaeth deg o'r Dyletswydd Gonestrwydd, ond nid oedd y tîm i gyd wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nodi dyddiadau ar y polisiâu'n gyson.
- Cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaethau eirioli yn y weithdrefn gwyno
- Rhoi system ar waith i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch cleifion gyda chyrrff eraill y GIG
- Cynnal archwiliad o gofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol, gyda rhai nyrsys wedi'u hyfforddi ar gyfer dyletswyddau estynedig fel taenu fflworid a radiograffi deintyddol



- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau gyda system ffeilio dda a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i ffeiliau pan oedd angen.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 52 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Practis hynod effeithlon a gofalgar.”*

*“Mae'n bractis hyfryd, yn lân a thaclus iawn. Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn.”*

*“Cwrtais, proffesiynol ac effeithlon.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i gleifion drwy'r practis, gan gynnwys y polisi cwynion, poster Gweithio i Wella ac roedd ffioedd triniaethau ar gyfer gofal y GIG a gofal preifat yn cael eu harddangos hefyd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion fod y staff wedi esbonio iechyd y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi newid y seddau yn ardal aros y cleifion o rai ffabrig i blastig ac roedd wedi gosod gwyntyllau echdynnu oherwydd COVID-19 er mwyn sicrhau proses well o reoli heintiau ac awyru.

Gwelsom fod arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

##### Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld y cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom hefyd fod bleinds ar y ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd ychwanegol.

Roedd pob un o'r 52 o ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd desg y dderbynfa ar wahân i ystafell aros y cleifion ar y llawr gwaelod sy'n rhoi rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd ardal aros arall ar y llawr cyntaf. Roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth ddelio â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgysiau dros y ffôn. Dywedwyd wrthym y byddai deintyddfa segur neu swyddfa fach y tu ôl i'r dderbynfa yn cael ei defnyddio ar gyfer trafodaethau cyfrinachol neu sensitif.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau/manteision a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y staff wedi esbonio iddynt beth oeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad.

Gweler isod rai o'r sylwadau a gafwyd am ofal y cleifion:

*“Mae'r gofal o safon uchel.”*

*“Mae gen i hyder aruthrol yn y deintydd rwy'n ei weld”*

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Dywedwyd wrthym fod y nyrsys deintyddol yn rhoi gwybod i'r dderbynfa am unrhyw oedi mewn person neu drwy'r system anfon neges ar unwaith. Byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion pe byddai unrhyw oedi cyn iddynt gael eu gweld yn eu hapwyntiad.

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu yn bersonol yn y dderbynfa ac felly'n lleihau'r risg o eithrio rhai cleifion yn ddigidol.

Dywedwyd wrthym y caiff gofal deintyddol brys ei drefnu naill ai drwy ffonio'r dderbynfa yn uniongyrchol neu drwy anfon e-bost at y rheolwr cofrestredig a fyddai'n anfon y neges ymlaen at y dderbynfa er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol. Cawsom wybod bod slotiau apwyntiad brys gwag ar gael yn y bore a'r prynhawn. Dywedwyd wrthym y byddai ymdrechion yn dal i gael eu gwneud i ddarparu ar gyfer cleifion os na fyddai'r amseroedd hyn yn addas.

Dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn gorfod aros tua phythefnos neu dair wythnos rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater ac argaeledd y deintydd. Fodd bynnag, os byddai claf am weld y prif ddeintydd, gallai'r cyfnod aros hwn fod hyd at chwe wythnos.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cadw slotiau apwyntiad ar ôl oriau ysgol ond roedd yn ceisio cadw o fewn yr oriau busnes gosod. Nid oedd y practis yn cynnig apwyntiadau gyda'r nos na'r penwythnosau, a hynny er mwyn cynnal llesiant y staff.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen gofal a thriniaeth brys arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd pob un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a deimlai ei bod yn berthnasol eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylid ei wneud pe byddai haint neu argyfwng, ac â phwy y dylent gysylltu.

## Teg

### Cyfathrebu ac Iaith

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Er bod y datganiad o ddiben wedi'i adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf, nid oedd dyddiad adolygu ar y daflen wybodaeth i gleifion. At hynny, roedd y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion a cheisio safbwyntiau'r cleifion ar goll.

### Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y practis, gan gynnwys tystysgrifau AGIC a ffioedd triniaethau'r GIG. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn

ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol ac nid oedd yn deall yn llwyr bwysigrwydd siarad â chleifion yn eu dewis iaith fel rhan angenrheidiol o ddarparu gofal iechyd da.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC o sut mae'r practis yn bwriadu rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith i gleifion.**

Yn ogystal, gwelsom nad oedd taflenni gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, megis hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion y cleifion ag anawsterau darllen.

**Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y gall y practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen.**

Dywedwyd wrthym nad oedd yr un aelod o'r staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg ond gallent ddefnyddio aelod o'r teulu i ddehongli er mwyn rhoi gofal yn Gymraeg pe gofynnwyd am hynny. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth hon yn dibynnu ar ewyllys da ac argaeledd ac ond yn berthnasol i ddarpariaeth Gymraeg y practis. Gwelsom nad oedd gwasanaeth cyfieithu'n cael ei ddarparu.

**Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi'r gwasanaeth cyfieithu priodol ar waith.**

Gwelsom fod system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod polisi cyfle cyfartal cyfredol a oedd yn cwmpasu cydraddoldeb a gwahaniaethu a pholisi gwrth-fwllo ac aflonyddu ar waith yn y practis. Gwelsom hefyd fod proses chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi'r staff a oedd am godi pryderon. Gwelsom fod yr holl staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a chytuno i gynnwys y polisiau hyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Gwelsom ramp o'r maes parcio yn y cefn yn arwain at fynediad gwastad yn uniongyrchol i un o'r deintyddfeydd, gan roi mynediad i driniaeth i gleifion â phroblemau symudedd. Fodd bynnag, gwelsom fod mynediad i'r toiled i gleifion ar

y llawr gwaelod yn cynnwys stepen fach ac onglau lletchwith i gadair olwyn eu manwfro. At hynny, nid oedd gan y toiled unrhyw ganllawiau cymorth na chymorth galw mewn argyfwng wedi'u gosod. Nid oeddem yn ystyried bod y toiled yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau i'r practis ddiwallu anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn o ran cyfleusterau'r toiled.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben i hysbysu'r cleifion am broblemau mynediad y toiledau yn y practis.**

Yn ogystal, gwelsom mai dim ond tap dŵr oer oedd wrth y basn golchi dwylo yn y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod. Nid oedd y cyflenwad dŵr poeth wedi'i gysylltu â'r sinc ac nid oed tap dŵr poeth wedi'i ffitio. Gwelsom fod sinc golchi dwylo arall gyda dŵr poeth wedi'i osod yn yr ardal aros i gleifion o ganlyniad i COVID-19. Dywedwyd wrthym os oedd y cleifion am ddefnyddio dŵr poeth i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled, roedd hwn ar gael iddynt. Gwnaethom ystyried bod y trefniant hwn yn amhriodol, gan nad oedd yn parchu hawliau'r claf i breifatrwydd.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod tap dŵr poeth yn y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod er mwyn galluogi'r cleifion i olchi eu dwylo yn breifat.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn hen adeilad teras, a oedd i'w weld mewn cyflwr da. Gwelsom fod y deintyddfeydd a'r ardaloedd i gleifion mewn cyflwr da gydag ystafelloedd triniaeth mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Roedd deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, roeddent wedi'u marcio'n glir gydag arwyddion priodol a oedd yn nodi presenoldeb cyfarpar pelydr-X.

Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd i gleifion yn ddymunol a chyfforddus ac wedi'i addurno i safon dda. Fodd bynnag, gwelsom fod y seddau yn yr ardal orffwys i'r staff wedi treulio ac wedi staenio, ac roedd caead y bin gwastraff yn ardal y gegin gerllaw wedi'i ddifrodi, gan arwain at halogi bwyd a diod. At hynny, gwelsom ddarn o lwydni tywyll ar y wal y tu ôl i doiled y staff. Roeddem o'r farn bod y materion hyn yn risg rheoli heintiau i'r staff sy'n gweithio yn y practis.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau a welwyd yn ardaloedd gorffwys y staff a thoiled y staff er mwyn gwella atal a rheoli heintiau.**

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch cyfredol ar waith. Roedd hwn yn nodi mai'r tro diwethaf y cafodd Profion Offer Cludadwy eu cwblhau oedd yn 2015 ac roedd argymhelliad i'w hadnewyddu. Er i reolwr y practis ddweud ei fod yn cynnal gwiriadau gweledol, nid yw hyn yn cynnwys diffygion mewnol. Dim ond prawf gweledol a PAT cyfunol all ganfod diffygion o'r fath mewn modd dibynadwy, yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal, ni allem weld sticer prawf PAT ar nifer o ddyfeisiau yn y gegin.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y trefniadau ar gyfer cynnal Profion Offer Cludadwy ar gyfarpar trydanol yn y practis yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.**

Gwelsom bolisi cynnal a chadw adeiladau cyfredol, a oedd yn cyfeirio at gynllun cynnal a chadw ataliol a system rhoi gwybod am ddiffygion. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd yr un o'r rhain ar waith pan ofynnwyd am dystiolaeth.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y prosesau a ddisgrifiwyd mewn polisiau eu rhoi ar waith a rhoi dystiolaeth i AGIC.**

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu os bydd system yn methu. Gwelsom fod manylion cyswllt ar gyfer tîm ymateb mewn argyfwng dynodedig y practis wedi'u rhestru. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw restr gynhwysfawr o rifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer cwmnïau cyfleustodau na darparwyr gwasanaeth eraill.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r cynllun parhad busnes er mwyn cynnwys rhestr gynhwysfawr o fanylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau perthnasol a darparwyr gwasanaeth.**

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod cyfleusterau i'r staff newid mewn preifatrwydd a bod loceri unigol ar gael iddynt storio eu heiddo.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Gwelsom fod contract cynnal a chadw cyfredol ar waith ar gyfer y cyfarpar tân, a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd gwiriadau wythnosol o gyfarpar diogelwch tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi. Gwelsom fod dau warden tân wedi'u penodi a dywedwyd wrthym fod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, ni welsom fod yr ymarferion tân yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr diogelwch tân.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cofnodi yn y cofnodlyfr diogelwch tân.**

Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir heb ddim yn eu rhwystro a bod arwyddion gwagio'r adeilad yn cael eu harddangos drwy'r safle.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir yn ardal y gegin i'r staff ei weld. Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith a bod yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei arddangos.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom fod arweinydd rheoli heintiau dynodedig wedi'i benodi a bod amserlenni glanhau drwy'r practis i gefnogi arferion glanhau. Fodd bynnag, gwelsom staeniai nad oedd modd eu dynodi ar wal toiled y cleifion ac ar y switsh golau. Bu'r ymdrechion i lanhau'r rhain ar adeg yr arolygiad yn aflwyddiannus, gan awgrymu eu bod o natur hirsefydlog.



**Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu proses lanhau'r toiled i gleifion ar y llawr gwaelod. Neu, gall y rheolwr cofrestredig ddymuno ystyried ailaddurno'r toiled i gleifion ar y llawr gwaelod.**

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Roedd ystafell ddihalogi benodol gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Fodd bynnag, gwelsom fod bwcedi a mopiau'n cael eu storio yn yr ystafell a oedd yn peri perygl o faglu a phroblem halogi bosibl. Cafodd y rhain eu symud i leoliad mwy priodol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y cofnodlyfrau wedi'u cwblhau i ddangos bod gwiriadau priodol o'r cyfarpar dihalogi wedi'u cynnal. Fodd bynnag, gwelsom fod yr archwiliad rheolaidd o brosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi heb ei gynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad o brosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.**

Gwelsom fod gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd asesiad risg COSHH addas ar waith ar gyfer pob sylwedd peryglus i iechyd.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a storio meddyginiaethau yn ddiogel. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais amdano.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Gwelwyd bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y byddai angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom gofnodion hefyd fod gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob meddyginiaeth a darn o gyfarpar dadebru o fewn eu dyddiad defnyddio. Gwelsom fod gan y practis gontract wythnosol ar waith i wirio'u silindrau ocsigen.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r staff pe bai pryder.

Gwelsom fod gan y practis arweinydd diogelu ar waith a bod yr holl staff yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn gwybod am ddiogelu. Roedd yr arweinydd wedi lawrlwytho ap Diogelu Cymru Gyfan i'w ffonau er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arweiniad diweddaraf.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaeth a gofal deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd trefniadau addas ar waith i ymdrin ag unrhyw ddyfais neu fethiannau mewn systemau.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw ac wedi cael y profion gofynnol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi cwblhau archwiliad clinigol diweddar o belydrau-X.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad clinigol o belydrau-X. Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ystyried archwilio'r cyfarpar pelydrau-X bob chwe mis yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (y DU).**

Gwelsom fod rheolau lleol mewn perthynas â defnyddio cyfarpar pelydr-X yn cael ei arddangos er mwyn i'r staff fynd ato'n hawdd. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd tystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Gwelsom fod tystiolaeth o werthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y cleifion. Gwelsom drefniadau addas i sicrhau bod cysylltiad y cleifion ag ymbelydredd mor isel ag yr oedd yn rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, ni allem weld bod gwybodaeth ysgrifenedig yn esbonio'r risgiau a'r manteision o gael pelydr-X wedi'i arddangos i gleifion. Roedd hyn yn golygu na allem gael sicrwydd bod y cleifion yn cael y wybodaeth hon fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei rhoi ar lafar.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth sy'n esbonio'r risgiau a'r manteision o gael pelydr-X yn cael ei harddangos i gleifion yn yr ardaloedd aros.**

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymhell er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da a chytunodd y rhan fwyaf eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth.

### **Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u

storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd gan yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt ddynodyddion cleifion addas, fel enw a dyddiad geni'r claf, y rheswm dros fynychu ac roedd y symptomau a ddisgrifiwyd gan y cleifion wedi'u cofnodi hefyd. Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys yr hanes deintyddol blaenorol gan gynnwys defnydd o alcohol a thybaco lle y bo'n gymwys a chofnodwyd hylendid y geg a chyngor ar ddeiet. Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cynnwys system i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob ymgynghoriad.

Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau meinweoedd meddal, archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg a phrofion sgrinio am ganser. Nodwyd gennym fod pob cofnod yn dangos y cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn eu triniaeth a chofnodwyd hynny a'i fod yn unol â chanllawiau NICE.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Er bod y cofnodion yn dangos bod hanes meddygol cychwynnol yn cael ei nodi gan y cleifion, nid yw'r ddogfen hon wedi'i llofnodi na'i dyddio'n gyson gan y cleifion nac wedi'i chydlofnodi gan y deintydd.

Gwelsom fod opsiynau triniaeth i gleifion da wedi'u nodi gydag ymchwiliadau a phrofion trwyadl, a bod y wybodaeth hon wedi'i rhoi i gleifion mewn modd amserol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd tystiolaeth cynllunio triniaethau gan gynnwys costau wedi'u cofnodi'n gyson.

Gwelsom hefyd nad oedd y gwaith o gofnodi Archwiliad Periodontol Sylfaenol a siartiau pcedd chwe phwynt yn gyson ac nid oedd cofnod fod cyngor rhoi'r gorau i smygu yn cael ei ddarparu.

**Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.**

Yn ogystal, gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi. Gallai hyn rwystru gofal cleifion effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion cleifion.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y practis yn defnyddio system electronig i sicrhau bod trefniadau ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau gofal iechyd eraill yn effeithiol a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal o amgylch apwyntiadau arferol wedi'u trefnu ymlaen llaw.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn eiddo i deulu ac yn cael ei weithredu gan y prif ddeintydd sydd hefyd yn gweithredu fel rheolwr y practis. Roedd hyn yn galluogi llinellau adrodd clir i'r staff.

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff misol a chyfathrebu wyneb yn wyneb ad hoc. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd a dywedwyd bod copïau caled yn cael eu rhoi i aelodau o staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth dda o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Cafodd y rhain eu ffeilio'n drefnus, eu mynegeo a'u llofnodi gan aelodau o staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Roedd y sampl o'r polisiau a welsom yn dangos bod rhai ohonynt wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd sawl polisi'n cynnwys dyddiad dechrau na dyddiadau adolygu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gadarnhau pryd y daeth y polisi'n weithredol a phryd y bydd angen yr adolygiad nesaf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y rhoddir dyddiad ar holl bolisiau'r practis. Rhaid i hyn gynnwys dyddiad cychwyn y polisi a dyddiadau unrhyw adolygiadau a gynhaliwyd.**

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintydd, roedd tîm y practis yn cynnwys pedwar deintydd cyswllt, hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol a dau dderbynydd.

Cawsom wybod bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol i gyflawni'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedwyd wrthym nad oedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, a gwelsom fod staff ychwanegol ar gael i gyflenwi dros wyliau a salwch.

Roedd enwau'r deintydd a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis i'w gweld yn glir ochr yn ochr â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei monitro gan un o reolwyr y practis.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwr y practis yn agored ac yn hawdd i'r staff fynd ato, ond fel deintydd prysur, rydym yn cydnabod y byddai'r amserlen triniaethau'n amharu ar yr adegau y mae ar gael.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys a thystiolaeth (lle y bo'n ofynnol) o yswiriant indemniad, tystiolaeth o gofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o frechiadau.

Cawsom wybod bod staff newydd yn cael eu dangos o gwmpas y practis a bod yn rhaid iddynt ddarllen a llofnodi polisiau a gweithdrefnau'r practis i gadarnhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd polisi na phroses sefydlu ffurfiol ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi sefydlu a gweithdrefn strwythuredig eu rhoi ar waith a rhoi tystiolaeth i AGIC.**

Gwelsom fod y staff a gyflogir gan y practis yn cael arfarniadau gwaith blynyddol a'u bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Gwelsom fod rhai nyrsys wedi'u hyfforddi ar gyfer dyletswyddau estynedig fel taenu fflworid a radiograffi deintyddol ar gyfer nyrsys deintyddol. Gwnaethom nodi hefyd fod nyrs arall yn dilyn yr hyfforddiant radiograffi deintyddol ar gyfer nyrsys deintyddol ar hyn o bryd.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Disgrifiwyd gwahanol drefniadau ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys holiaduron boddhad cleifion, e-bost a thrwy wefan y practis.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw adborth yn cael ei asesu, ei ddadansoddi a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi nodi cost triniaethau ac argaeledd cylchgronau yn yr ardal aros fel yr unig themâu cyffredin hyd yma.

**Rydym yn argymhell bod y personau cofrestredig yn ystyried rhoi system addas ar waith i ddangos i gleifion pa gamau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i'w hadborth.**

Gwelsom fod posteri Gweithio i Wella wedi'u harddangos yn ardaloedd aros y cleifion. Gwelsom fod gweithdrefnau cwyno ysgrifenedig cyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal deintyddol a ddarperir yn y practis. Roedd y rhain ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd y rhain i'w gweld hefyd yn yr ardaloedd aros ac roeddent yn cynnwys manylion y rheolwr cwynion ac yn nodi'r amserlenni ymateb disgwylidig. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt, fel yr ombwdsmon ac AGIC hefyd wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, ni ddarparwyd manylion gwasanaethau eirioli a allai roi cyngor a chymorth wrth fynegi cwynion.

**Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn diweddarau'r gweithdrefnau cwyno er mwyn cynnwys manylion gwasanaethau eirioli.**

Dywedwyd wrthym fod materion cleifion yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion ac os bydd angen ymateb ffurfiol arnynt, yna byddai angen cyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig. Dywedwyd wrthym fod y broses ddatrys wedi'i dogfennu drwyddi draw. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth o hyn oherwydd dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law dros y naw i ddeng mlynedd diwethaf.

Gwelsom fod gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, roedd hwn yn eithaf byr ac roedd wedi methu â rhoi digon o arweiniad a nodi cyfrifoldebau'r staff. Dywedwyd wrthym fod y staff yn y broses o gwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roeddent yn dangos dealltwriaeth deg pan gawsant eu holi. Hyd yma, ni fu unrhyw ddigwyddiad lle y bu angen arfer y Ddyletswydd Gonestrwydd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi'r Ddyletswydd Gonestrwydd ei diweddarau yn unol ag arweiniad y Ddyletswydd Gonestrwydd.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.**



## Gwybodaeth

### Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Byddai gwybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol a digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael ei chofnodi yng nghofnodlyfr damweiniau'r practis a'i thrafod yn y cyfarfodydd tîm misol. Byddai trafodaeth tîm yn llywio cynlluniau ar gyfer gwella a gweithredu lle bo angen. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd system ar waith ar hyn o bryd i rannu digwyddiadau diogelwch cleifion gyda chyrrff eraill y GIG.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch cleifion gyda chyrrff eraill y GIG a rhoi manylion i AGIC.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o wastraff, mynediad i bobl anabl a gwrthficrobau. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu fel rhan o brosiectau cenedlaethol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliad cofnodion diweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad o gofnodion a rhoi'r canlyniadau i AGIC.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio llwyfan hyfforddiant gwella ansawdd ar-lein priodol er mwyn helpu i wella safonau yn y practis.

## Dull Systemau Cyfan

### Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer y broses o ymgysylltu rhwng y practis a gwasanaethau eraill.

Dywedwyd wrthym fod system electronig yn cael ei defnyddio i atgyfeirio cleifion, gan gynnwys y rhai hynny yr oedd angen eu hatgyfeirio ar frys, at wasanaethau gofal iechyd eilaidd. Er nad yw'n rhan o glwstwr gofal iechyd, dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn ysgrifennu at feddygon teulu ar gyfer adolygiadau o feddyginiaeth ac yn atgyfeirio cleifion at fferyllwyr i drafod rhyngweithiadau â

meddyginiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei gydgyssylltu'n well er mwyn hyrwyddo llesiant y cleifion a'r gymuned ehangach.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Whitehouse Dental Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Whitehouse Dental Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 13 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom nad oedd dyddiad adolygu ar y daflen wybodaeth i gleifion. At hynny, roedd y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion a cheisio safbwyntiau'r cleifion ar goll.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddar'u'r daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.	Rheoliad 6 (1) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae'r daflen wybodaeth i gleifion wedi'i newid i gynnwys y manylion hyn.	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau
Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol ac nid oedd yn deall yn llwyr bwysigrwydd siarad â'r	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC o sut mae'r practis yn bwriadu rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y	Safon Ansawdd - Teg	Mae'r Cynnig Rhagweithiol bellach wedi'i roi ar waith. Mae pob un ohonom yn deall yn llwyr bwysigrwydd siarad â'r	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau

<p>cleifion yn eu dewis iaith fel rhan angenrheidiol o ddarparu gofal iechyd da.</p>	<p>Gymraeg ar waith i gleifion.</p>		<p>cleifion yn eu dewis iaith fel rhan angenrheidiol o ddarparu gofal iechyd da. Mae'r poster sydd i'w weld ar y dderbynfa yn dangos hyn, ond mae gwybodaeth ychwanegol bellach wedi'i dosbarthu i'r tîm.</p> <p><a href="#"><u>'Cynnig Rhagweithiol' Pecyn Gwybodaeth – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol rhan 2 Cymraeg (llyw.cymru)</u></a></p>		
<p>Nodwyd gennym nad oedd taflenni gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, megis hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd</p>	<p>Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y gall y practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i</p>	<p>Safon Ansawdd - Teg</p>	<p>Mae sawl poster a thaflen (Gweithio i Wella a'r wybodaeth Diogelu er enghraifft) wedi'u lawrlwytho mewn gwahanol</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>yn ystyried anghenion y cleifion ag anawsterau darllen.</p>	<p>gleifion ag anawsterau darllen.</p>		<p>fformatau (Saesneg, Cymraeg, hawdd eu deall a chyfeillgar i blant) ac rydym wrthi'n archwilio i gael deunydd darllen arall (rhoi'r gorau i smygu, taflenni cyngor ar ofal iechyd y geg ac ati) mewn gwahanol fformatau.</p>		
<p>Gwelsom nad oedd gwasanaeth cyfieithu'n cael ei ddarparu.</p>	<p>Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn rhoi'r gwasanaeth cyfieithu priodol ar waith.</p>	<p>Safon Ansawdd - Teg</p>	<p>Byddwn yn defnyddio'r Llinell Iaith wrth symud ymlaen</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Nodwyd gennym fod mynediad i'r toiled i gleifion ar y llawr gwaelod yn anaddas i gadeiriau olwyn.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig:</p> <p>1) ystyried y ffordd orau i'r practis ddiwallu anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn o ran cyfleusterau toiled.</p> <p>2) diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'r</p>	<p>Rheoliad 22(2)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Bwriedir adnewyddu'r cyfleusterau toiled i gleifion fel rhan o welliannau ehangach y Clinig. Yn y cyfamser, rydym wedi addasu'r wybodaeth a anfonir at gleifion mewn perthynas â chyfleusterau yn y</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>1. Bydd gwaith adeiladu'n cael ei gynllunio gan y perchnogion newydd.</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>



	datganiad o ddiben i hysbysu cleifion am y materion mynediad i'r toiledau yn y practis	Rheoliad 5 a 6 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Clinig i roi gwybod nad yw'r cyfleusterau toiled o fewn cyrraedd pawb		
<b>Gwelsom mai dim ond tap dŵr oer oedd yn y basn golchi dwylo yn y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod tap dŵr poeth yn y toiled i gleifion ar y llawr gwaelod er mwyn galluogi'r cleifion i olchi eu dwylo yn breifat.	Rheoliad 22(2)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Bwriedir adnewyddu'r cyfleusterau toiled i gleifion fel rhan o welliannau ehangach y Clinig.	Rhys Griffiths	12 wythnos
<b>Gwelsom fod y seddau yn yr ardal orffwys i'r staff wedi treulio ac wedi staenio, ac roedd caead y bin gwastraff yn ardal y gegin gerllaw wedi'i ddifrodi, gan arwain at halogi bwyd a diod. At hynny, gwelsom ddarn o lwydni tywyll ar y wal y tu ôl i doiled y staff.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau a welwyd yn ardaloedd gorffwys y staff a thoiled y staff er mwyn gwella atal a rheoli heintiau.	Rheoliadau 13(6)(b)(i) a 22(a) ac (c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae seddau'r staff oedd wedi'u staenio wedi'u trwsio, eu glanhau ac maent yn lân. Mae'r bin newydd wedi'i osod. Mae'r llwydni wedi'i olchi i ffwrdd.	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau

<p>Gwelsom fod yr asesiad risg iechyd a diogelwch yn nodi mai'r tro diwethaf y cafodd Profion Offer Cludadwy eu cwblhau oedd yn 2015 a bod argymhelliad i'w hadnewyddu. Yn ogystal, ni allem weld sticer prawf PAT ar ambell ddyfais yn y gegin.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y trefniadau ar gyfer cynnal Profion Offer Cludadwy ar gyfarpar trydanol yn y practis yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.</p>	<p>Rheoliad 22 (2)(a) a (4)(a) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Cysylltwyd â thrydanwr i drefnu prawf PAT. Rwy'n aros am ddyddiad i gwblhau hwn ond ar ôl iddo gael ei gwblhau, bydd rhestr gyfredol o ddyfeisiau wedi'u profi (bydd y fformat yn cael ei gadarnhau yn dibynnu ar bresenoldeb y trydanwr) yn cael ei lanlwytho i'r porth.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>I'w gadarnhau ond y gobaith yw llai na 6 wythnos.</p>
<p>Gwelsom fod y polisi cynnal a chadw adeiladau'n cyfeirio at gynllun cynnal a chadw ataliol a system rhoi gwybod am ddiffygion. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd yr un o'r rhain ar waith pan ofynnwyd am dystiolaeth.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y prosesau a ddisgrifiwyd mewn polisiau eu rhoi ar waith a rhoi tystiolaeth i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 8 (1)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Rhoddir gwybod am ddiffygion erbyn hyn, ac mae gwaith adferol wedi'i nodi hefyd. Mae'r cyfeiriad at 'Gynllun cynnal a chadw ataliol' wedi'i ddileu gan y bydd hyn yn dod o dan y cynlluniau adnewyddu ehangach.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Ni welsom unrhyw restr gynhwysfawr o rifau cyswllt brys ar gyfer cwmnïau cyfleustod a darparwyr gwasanaethau eraill.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r cynllun parhad busnes er mwyn cynnwys rhestr gynhwysfawr o fanylion cyswllt ar gyfer cwmnïau cyfleustodau perthnasol a darparwyr gwasanaeth.</p>	<p>Rheoliad 8 (1)(o) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Diweddarwyd hon gyda manylion darparwyr cyfleustodau a manylion cyswllt contractwyr fel y peiriannydd deintyddol, cwmni larymau tresmaswyr, cwmni draenio a chwmni aerdymheru (ymhlith eraill).</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom nad oedd yr ymarferion tân yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr diogelwch tân.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cofnodi yn y cofnodlyfr diogelwch tân.</p>	<p>Rheoliad 22(4)(d) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Bydd y rhain bellach yn cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr wedi'i lofnodi.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom staeniau nad oedd modd eu dynodi ar wal toiled y cleifion ac ar y switsh golau.</p>	<p>Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn adolygu proses lanhau'r toiled i gleifion ar y llawr gwaelod. Neu, gall y rheolwr cofrestredig ddymuno ystyried ailaddurno'r toiled i</p>	<p>Rheoliad 13(6)(b)(i) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Bwriedir adnewyddu'r cyfleusterau toiled i gleifion fel rhan o'r gwelliannau ehangach yn y Clinig, ond bwriedir paentio'r wal</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>4 wythnos</p>

	gleifion ar y llawr gwaelod.		hon fel mesur dros dro.		
<b>Gwelsom nad oedd yr archwiliad arferol o brosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi wedi'i gyflawni.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad o brosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.	WHTM 01-05 Paragraff 2.23	Mae archwiliad o brosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi wedi'i gynllunio dros dro fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru i ddau archwiliad gael eu cynnal erbyn diwedd blwyddyn 2023-24	Rhys Griffiths	12 wythnos
<b>Gwelsom nad oedd y practis wedi cwblhau archwiliad clinigol diweddar o gyfarpar pelydr-X.</b>	Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ystyried archwilio cyfarpar pelydr-X bob chwe mis yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (y DU).	Rheoliad 7 - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Mae archwiliad o radiograffau deintyddol wedi'i gynllunio dros dro fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru i gynnal dau archwiliad erbyn diwedd blwyddyn 2023-24.	Rhys Griffiths	12 wythnos
<b>Ni allem weld gwybodaeth ysgrifenedig wedi'i</b>	Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod gwybodaeth	Rheoliad 13 (9)(a) - Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae poster sy'n esbonio'r risgiau a'r manteision wedi'i	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau

<p><b>harddangos i gleifion yn esbonio'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael archwiliad pelydr-X.</b></p>	<p>sy'n esbonio'r risgiau a'r manteision o gael pelydr-X yn cael ei arddangos i'r cleifion yn yr ardal aros.</p>	<p>Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>gynllunio a chaiff ei arddangos yn y ddwy ystafell aros i gleifion ei ddarllen yn eu pwysau.</p>		
<p><b>Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion, gan gynnwys cofnodi Archwiliad Periodontol Sylfaenol yn anghyson, siartiau poced chwe phwynt a thystiolaeth o gynllunio triniaethau.</b></p>	<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Mae clinigwyr wedi cael eu cyfeirio at wefannau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd â gwybodaeth fanwl am gwblhau cofnodion deintyddol ar yr un pryd. Mae pynciau DPP wedi'u hargymell hefyd.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p><b>Gwelsom nad oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion, a allai ei gwneud hi'n anodd darparu gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.</b></p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion cleifion</p>	<p>Rheoliad 13 (1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).</p>	<p>Os caiff iaith ar wahân i'r Saesneg ei dewis fel dewis iaith cyfathrebu'r cleifion, caiff ei chofnodi yn y nodiadau clinigol.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Gwelsom nad oedd sawl polisi'n cynnwys dyddiad cychwyn na dyddiadau adolygu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gadarnhau pryd y daeth y polisi'n weithredol a phryd y bydd angen yr adolygiad nesaf.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y rhoddir dyddiad ar holl bolisiau'r practis. Rhaid i hyn gynnwys dyddiad cychwyn y polisi a dyddiadau unrhyw adolygiadau a gynhaliwyd.</p>	<p>Rheoliad 8 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).</p>	<p>Mae taflen gofnodi wedi'i hychwanegu at bob polisi sy'n rhoi manylion y dyddiad dechrau, y dyddiad y cafodd ei adolygu ddiwethaf a'r unigolyn a wnaeth ei adolygu.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom nad oedd polisi na phroses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi sefydlu a gweithdrefn stwythuredig yn cael eu rhoi ar waith a rhoi tystiolaeth i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 8 (1)(h) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Mae polisi sefydlu'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei anfon i AGIC ar ôl iddo gael ei gwblhau.</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau (Atodedig)</p>
<p>Gwelsom nad oedd system ar waith i ddangos i'r cleifion pa gamau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i adborth.</p>	<p>Rydym yn argymhell bod y personau cofrestredig yn ystyried rhoi system addas ar waith i ddangos i gleifion pa gamau a gymerwyd gan y practis mewn ymateb i'w hadborth.</p>	<p>Rheoliad 16(2)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Datblygwyd posteri 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' a byddant yn cael eu harddangos mewn ystafelloedd aros yn dilyn adborth a chymryd camau. Bydd hyn yn ogystal â chofnodlyfr o adborth</p>	<p>Rhys Griffiths</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

			a newidiadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r adborth hwn.		
<b>Gwelsom nad oedd manylion gwasanaethau eirioli a allai roi cyngor a chymorth wrth fynegi cwynion wedi'u darparu o fewn y gweithdrefnau cwyno.</b>	Rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn diweddarau'r gweithdrefnau cwyno er mwyn cynnwys manylion y gwasanaethau eirioli.	Rheoliad 21 (1) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae manylion Gwasanaeth Eirioli Cwynion Llais wedi'u hychwanegu at y polisiau Cwynion.	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau
<b>Gwelsom fod polisi Dyletswydd Gonestrwydd y practis yn gryno ac yn methu â rhoi digon o arweiniad a nodi cyfrifoldebau'r staff.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi'r Ddyletswydd Gonestrwydd ei ddiweddarau yn unol ag arweiniad y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Safon Ansawdd - Diwylliant	Mae'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd bellach yn dilyn canllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau
<b>Dywedwyd wrthym fod y staff yn y broses o gael hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd	Rheoliad 8 (1) a (2)(a) - Hyfforddiant a Chymorth - Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd	Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau DPP Dyletswydd Gonestrwydd.	Rhys Griffiths	

	Gonestrwydd, a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC	Gonestrwydd (Cymru) 2023			
<b>Dywedwyd wrthym nad oedd system ar waith ar hyn o bryd i rannu digwyddiadau diogelwch cleifion gyda chyrrff eraill y GIG.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau i rannu gwybodaeth am ddiwyddiadau diogelwch cleifion gyda chyrrff eraill y GIG a rhoi manylion i AGIC.	Safon Ansawdd - Gwybodaeth	Byddai digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu rhannu gyda'r BILL, (NRLS), yr HSE, yr heddlu, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ac AGIC. Diweddarwyd hyn yn y polisi Dyletswydd Gonestrwydd hefyd.	Rhys Griffiths	Wedi'i gwblhau
<b>Gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad cofnodion diweddar.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad o gofnodion a rhoi'r canlyniadau i AGIC.	Rheoliad 8 (1)(n) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Caiff archwiliad o gofnodion clinigol ei gynllunio dros dro fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer dau archwiliad i'w cynnal erbyn diwedd y flwyddyn 2023-24	Rhys Griffiths	12 wythnos



Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Rhys Griffiths**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd a Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 18/01/2024**